# Beth ydy Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a sut mae'n effeithio ar denantiaid cyngor?

Un o brif nodau Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod holl bobl Cymru, gan gynnwys tenantiaid tai cymdeithasol, yn cael y cyfle i fyw mewn cartrefi o ansawdd da, mewn cymunedau diogel a chadarn.

Er mwyn sicrhau bod yr holl gartrefi'n cael eu gwella hyd at lefel dderbyniol, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfen, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Safon ar gyfer ansawdd a chyflwr eiddo yw hon sy'n rhestru nifer y targedau y bydd gofyn i bob cartref eu bwrw.



**Mae dogfen SATC yn mynnu bod rhaid i'r holl dai cymdeithasol fod:**

- Mewn cyflwr da;
- Yn ddiogel a chadarn;
- Wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn effeithiol o ran tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda;
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd modern;
- Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau diogel a deniadol;
- Yn cael eu rheoli'n dda.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru tan **2020** i sicrhau bod eu holl dai cymdeithasol yn ticio'r blychau hyn ac yn cyrraedd y safon. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid gwneud gwaith gwella ar yr holl gartrefi nad ydynt yn cyrraedd y safon ar hyn o bryd.

**Sut mae Tai a Gwasanaethau Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu cyflawni'r SATC?**

Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r SATC, mae'r Gwasanaeth Tai ac Adeiladu bellach yn cynnal rhaglen gwaith gwella gynhwysfawr ar eiddo Cyngor Bro Morgannwg. Caiff y rhaglen waith sylweddol hon ei chwblhau erbyn y terfyn amser yn 2017.

**Sut mae'r gwaith yn cael ei ariannu?**

- Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn pennu cyllid blynyddol ar gyfer gwaith gwella Tai
- Buddsoddwyd mwy na £13m mewn gwaith gwella tai yn 2015/16
- Bydd tua £31m yn cael ei fuddsoddi yn 2016/17. Caiff hwn ei ariannu gan gyfuniad o incwm rhent tai Cyngor, arian a fenthyciwyd (benthyca darbodus) ac incwm a geir o werthu tir ac eiddo sy'n berchen i'r Cyngor.
- Mae Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn derbyn Lwfans Atgyweiriadau Mawr, sef grant cyfalaf o £2,769,620m a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc tai cyngor.

**Sut mae Tai a Gwasanaethau Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu cyflawni'r SATC?**

Mae Tai a Gwasanaethau Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg yn berchen ar fwy na 3,940 o eiddo tai cymdeithasol. Mae'r stoc yn cynnwys eiddo o wahanol oedran, siâp a maint, a adeiladwyd o bob math o ddeunyddiau gwahanol. Bydd rhaid i'r holl eiddo gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn **2020.**

Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth Tai ac Adeiladu bellach yn cynnal rhaglen gwaith gwella gynhwysfawr ar dai cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg. Caiff y rhaglen waith sylweddol hon ei chwblhau erbyn y terfyn amser yn 2017.

**Pa welliannau fydd yn digwydd ar fy eiddo?**

**Gwaith Allanol**

- Gosod toi newydd;
- Tynnu Asbestos;
- Ailosod/atgyweirio adeiladwaith allanol.

Gall y gwaith gynnwys ail-bwyntio waliau'r annedd, atgyweirio neu ail-osod gwaith rendro confensiynol, ail-osod cladin a thynnu neu ail-bwyntio a/neu ail-adeiladu corn simnai.

- **Atgyweiriadau Tai anhraddodiadol**

Gall gwaith gynnwys gosod deunydd inswleiddio waliau allanol ac unrhyw waith cysylltiedig i sicrhau sgôr SAP priodol yn ôl y gofyn. Noder - pan fo eiddo yn cael inswleiddio waliau allanol mae'n bosib y gall hefyd gael to newydd fel rhan o'r cynllun.

- **Gwaith i Ardaloedd Cymunedol**

Gall gwaith gynnwys ailosod systemau drws, drysau cymunedol, systemau larwm tân a gwaith trydanol, gwaith peintio a gosod goleuadau newydd.

- **Materion Allanol Eraill**

Mae'r gwaith yn cynnwys atgyfnerthu neu ailosod waliau cerrig yr ystyrir eu bod yn ddiffygiol, gwneud gwaith ar systemau draeniau ac atgyweirio elfennau concrid diffygiol. Gall y gwaith hefyd gynnwys atgyweirio, ailosod neu wneud gwelliannau (pan fo hynny'n ofynnol a pherthnasol) i lwybrau cerdded, adeiladau allanol/siediau, cyfleusterau sychu dillad, ffiniau (ffensys, waliau ac ati).





**Pryd caiff y gwaith ei wneud ar fy eiddo?**

Cyn dechrau ar unrhyw waith Gwella Allanol a gynlluniwyd, anfonir hysbysiad ysgrifenedig ymhell o flaen llaw i ddeiliaid eiddo ym Mro Morgannwg , er mwyn rhoi amser i bobl baratoi. Caiff yr holl waith mawr yn y rhaglen hon ei gwblhau cyn diwedd 2017. Fodd bynnag, bydd gwaith arall yn parhau i gael ei adeiladu i mewn i'r Cynllun Busnes a'i gyflawni ar sail rhaglen waith a gynllunnir.

**Pwy sy'n gwneud y gwaith mawr?**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gontractwyr i sicrhau y gellir cyflawni pob agwedd ar y gwaith gwella i safon uchel. Bydd y Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn rhoi gwybod i chi pa gontractwyr sy'n gweithio yn eich ardal chi.

**A fydd y gwaith yn amharu ar fy nghartref ac a oes unrhyw help a chyngor ar gael?**

Bydd gwneud gwaith gwella ar y raddfa hon yn sicr o amharu rhywfaint ar denantiaid ac rydym yn sylweddoli y gall y gwaith allanol achosi trafferth e.e. gwagio atigau a symud potiau gardd. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith gorffenedig yn werth yr ymdrech, ac mae help ar gael i chi.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflogi Swyddogion Cyswllt Tenantiaid y mae eu rôl yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â chi wrth i agwedd penodol o'r gwaith fynd rhagddo, helpu gydag unrhyw ymholiadau a all fod gennych, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhyngoch chi a'r Gwasanaeth Tai ac Adeiladu.

Mae gan rai o'n contractwyr eu Swyddogion Cyswllt Preswylwyr eu hunain sy'n cyflawni rôl debyg, fel y bydd wastad rhywun wrth law i chi gysylltu â hwy tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo petai unrhyw broblemau'n codi.

**Sut mae Gwasanaeth Tai Bro Morgannwg yn monitro safon y gwaith a wneir?**

Mae'n rhaid i bob agwedd ar y gwaith mawr gael ei harchwilio gan un o'n Swyddogion Goruchwylio Gwelliannau Tai (GGT) (Goruchwyliwr Gwaith), cyn y gellir ei lofnodi fel 'cwblhawyd'. Mae'n rhaid i'r Swyddog GGT gael ei fodloni bod y gwaith yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru cyn y gellir llofnodi ei fod wedi'i gwblhau.

Mae Bro Morgannwg yn defnyddio Gweithgor a Fforwm Ansawdd a Dyluniad, yn cynnwys tenantiaid etholedig, sy'n ymweld yn rheolaidd ag eiddo, yn siarad â thenantiaid, a pherfformio archwiliadau 'siopwr cudd' ar eiddo pan fo gwaith gwella yn mynd rhagddo. Mae'r canlyniadau'n cael eu bwydo yn ôl i'r Gwasanaeth Tai ac Adeiladu er mwyn ein helpu i sicrhau safonau uchel o ran gwaith a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a all godi.

Caiff Holiaduron Perfformiad - Boddhad Tenantiaid eu cwblhau gyda'r tenantiaid gan y Swyddogion Cyswllt Tenantiaid, yn dilyn cwblhau'r gwaith. Caiff y canlyniadau eu casglu, eu cymharu a'u dadansoddi. Caiff contractwyr eu herio ynghylch perfformiad er mwyn sicrhau safonau gwaith uchel drwyddo draw.

**Beth petai'r holl arian yn cael ei wario cyn gwneud unrhyw waith ar fy eiddo?**

Mae'n rhaid i'r holl eiddo tai cymdeithasol yng Nghyngor Bro Morgannwg fodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y terfyn amser **yn 2020.** Ein hymrwymiad ac addewid i chi, y tenant, yw y bydd

cartrefi pawb yn cyflawni'r safon yn ystod y pedair blynedd nesaf. Ni chaiff unrhyw gartref ei esgeuluso.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-quality/welsh-standard/?lang=en





**Beth yw Cynlluniau 'Budd Cymunedol'?**

Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Tai ac Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod yr economi leol yn cael y gwerth gorau posib o bob ceiniog gaiff ei gwario ar y gwaith o gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.

Bellach mae cymalau yn cael eu cynnwys ym mhob contract mawr, sy'n gofyn i gontractwyr sy'n gweithio gyda Tai a Gwasanaethau Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg i ymrwymo i ' rhoi rhywbeth ychwanegol' yn ôl i'r economi leol drwy gynlluniau Budd Cymunedol.

Gall cynlluniau gynnwys noddi projectau lleol megis gerddi cymunedol a thimau chwaraeon, neu adnewyddu neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, ac ati.

Gall Buddion Cymunedol hefyd gynnwys cyflogi gweithwyr lleol, sefydlu cynlluniau prentisiaeth a phrynu stoc a chyflenwadau gan fusnesau lleol.

Dros y 12 mis diwethaf mae Cynlluniau Budd Cymunedol wedi cyflawni'r canlynol:

- Am bob £1 a wariwyd ar gontract, buddsoddwyd mwy na £1.82 yn economi Cymru;
- Prentisiaethau – 2;
- Nifer yr wythnosau prentisiaeth a weithiwyd – mwy na 182;
- Gostwng diweithdra byrdymor (nifer y bobl a gyflogwyd yn ystod cyfnod y gwaith) - mwy na 10;
- Nifer y cymwysterau NVQ a gwblhawyd – 2;
- Profiad gwaith – 4.